

# CYLCHLYTHYR

Mae aelodau Cyngor Cymuned Derwen yn dymuno gweld pentrefi Clawddnewydd a Derwen yn ffynnu. 'Rydym yn ffodus o fyw mewn ardal sydd ag amryw o weithgareddau yn cael eu trefnu, er llês yr ardal, er mwyn codi arian at elusen, neu dim ond i fod yn gymdeithasol, a bellach mae ffordd ychwanegol ar gael i'w hysbysebu, sef y safle wê ganlynol, [www.clawddnewydd.co.uk](http://www.clawddnewydd.co.uk) ac yna cliciwch ar DerwenCC.

Os hoffech hysbysebu gweithgaredd leol ar safle gwê y Cyngor Cymuned, cysylltwch â Colin Morgan gyda'r manylion [wm@clawddnewydd.org.uk](mailto:wm@clawddnewydd.org.uk)

Ar yr un safle, cewch weld pwy yw'r cynghorwyr cymuned sy'n eich cynrychioli, sut i gysylltu â hwy, a dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd. Felly os oes gennych ddi-ddordeb mewn gweithgareddau lleol neu yr hoffech leisio barn ar unrhyw fater, cofiwch gysylltu â'r Cynghorwyr – mae croeso cynnes i unrhyw un ddod i wrando ar drafodaethau'r Cyngor. Fe'i cynhelir bob yn eil fis (yn Nerwen a Clawddnewydd bob yn ail) ar y 3ydd dydd Mercher a cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FERCHER, GORFFENNAF 20fed yn Festri Capel Derwen am 7.30 o'r gloch.

Wrth gwrs, nid pawb sydd a chyfrifiadur, felly mae modd gweld copi o gofnodion pwyllgorau yn yr Hysbysfyrddau lleol ac mae rhifau ffôn y Cynghorwyr yn amgaedig os hoffech gysylltu'n uniongyrchol.

Yn amgaedig hefyd mae manylion Cronfa Gymunedol newydd Fferm Wynt Wern Ddu sydd ar gael i helpu cymdeithasau/grwpiau neu unigolion lleol yn ariannol. Y dyddiad cau yw AWST 12fed, felly ewch ati rwan i ddarllen yr Amlinelliad a llenwi'r Ffurflen Gais.

**Beth ydych chi'n feddwl o'r syniad o gael Cylchlythyr rheolaidd?**

Mae'r syniad wedi'w awgrymu, ond iddo weithio mae'n rhaid cael cymorth gwirfoddolwyr lleol i gyfrannu erthyglau, i lunio dyddiadur o weithgareddau, i gynllunio cylchlythyr ar gyfrifiadur ac hefyd i'w ddsbarthu. Mae amser pawb yn werthfawr, felly gorau po fwya' fyddai'n medru helpio a byddai'n ddefnyddiol cael amcan o'r nifer sy'n hoffi'r syniad, a phwy fyddai ar gael i gynorthwyo.

Felly llenwch y slip isod a'i ddychwelyd at Clerc y Cyngor Cymuned – Mr Gwyn Davies, 11 Maes Caenog, Clocaenog, Rhuthun, LL15 2AU neu e.bostiwch i [derwencommunitycouncil@denbighshire.gov.uk](mailto:derwencommunitycouncil@denbighshire.gov.uk) erbyn dydd Mercher, MEDI'R 21ain.

-----  
Dwi'n hoffi'r syniad o gael cylchlythyr lleol      YDW      NACYDW      (rhowch gylch)

Gallwn/Ni allwn\* gynorthwyo (\*nodwch pa un) drwy: (ticiwch)

Gyflwyno gwybodaeth am fudiad rwy'n aelod ohono      Gyfrannu erthygl

Roi'r cylchlythyr hefo'i gilydd ar gyfrifiadur

Ddsbarthu'r cylchlythyr ym mhentref Derwen

Ddsbarthu'r cylchlythyr ym mhentref Clawddnewydd

Buaswn yn hoffi'r cylchlythyr ar e.bost      BUASWN      NA FUASWN      (rhowch gylch)

Buaswn yn hoffi copi papur o'r cylchlythyr      BUASWN      NA FUASWN      (rhowch gylch)

Enw a Chyfeiriad .....

Ffôn ..... E.bost ...